




Coeden  
Ddarllen  
Rhydychen

# Yr Ysbryd Drwg



Roderick Hunt  
Alex Brychta



Cafodd Cad syniad. Roedd hi am wneud arbrawf. Felly un diwrnod, rhoddodd botel dros afal bychan bach.

“Tybed a fydd yr afal yn tyfu yn y botel?” meddyliodd.  
“Bydd yn rhaid imi aros a gweld.”



Ar ôl amser hir, hir, aeth Cad i weld a oedd yr arbrawf yn gweithio. Mi oedd! Yn y botel roedd afal mawr. Dangosodd Cad y botel i Nadim. Pan welodd ef yr afal roedd wedi synnu.

“Sut cest ti hwnna i mewn i’r fan yna?” gofynnodd.



Yn sydyn dechreuodd yr allwedd hud ddisgleirio. Aeth yr hud â’r plant i antur arall.

“Tybed i ble mae’r hud yn mynd â ni?” galwodd Onw.



Aeth yr hud â nhw i ynys fechan fach yng nghanol y môr. Roedd Mwlsyn yn casáu anturiaethau hud.


“O na!” cwynodd. “Rydyn ni ar ynys wag gydag ond un goeden yn y canol.”

“Pam rydyn ni wedi dod i’r lle hwn?” gofynnodd Cad.

“Efallai bod rheswm pam fod yr hud wedi dod â ni i’r lle hwn,” meddai Nadim.

“Ond beth?” cwynodd Onw. “Does dim byd i’w gael fan hyn.”


“Na, dydw i ddim yn hoffi golwg hyn,” meddai Cad. “Dyw hon ddim yn mynd i fod yn antur dda.”



“Helpwch fi i ddringo’r goeden,” meddai Nadim,  
“ac efallai y gwelaf long yn hwylio heibio.”

Gwelodd Cad botel oedd bron ynghudd yn y tywod.  
Roedd wedi ei chlymu i waelod y goeden.

“Dyna ryfedd,” meddylodd Cad.  
Datododd y botel a’i chodi.



Yn sydyn dechreuodd Nadim chwifio ei ddwylo a gweiddi.

“Gallaf weld cwch,” meddai, “ond mae ymhell i ffwrdd.”

Cododd pawb eu dwylo a gweiddi. Trodd y cwch a dod tuag atyn nhw.


“Hwrê! Mae’n dod,” bloeddiodd Onw.



Cyrhaeddodd y cwch yr ynys. Roedd bachgen yn ei hwylio.

“Beth rydych chi’n ei wneud ar yr ynys fechan fach hon?” gofynnodd.

“Basech chi ddim yn ein credu, hyd yn oed petaem ni yn dweud wrthych chi,” meddai Cad.



Dyweddodd y bachgen y byddai yn eu hachub, felly dringodd pawb ar fwrdd y cwch.

“Rwy’n casáu cychod!” meddylodd Mwlsyn. Aeth Cad â’r botel gyda hi.

“Mae’n drwm iawn,” meddai. “Tybed beth sydd ynddi.”



Hwylodd y bachgen y cwch i ffwrdd o'r ynys.

"Kamar yw fy enw," meddai. "Fi yw mab Hassan yr Anturiwr."


"Pam rydych chi ar eich pen eich hun?" gofynnodd Nadim.

"Rwy'n chwilio am fy nhad," meddai Kamar. "Mae wedi bod ar goll ers pedair blynedd."

Dangosodd Cad y botel roedd hi wedi ei darganfod ar yr ynys i Kamar.

"Mae'n botel ryfedd iawn yr olwg," meddai hi. "Ces afael arni ar yr ynys."

"Mae rhywbeth trwm y tu mewn," meddai Kamar. "Dewch inni ei hagar."



Tynnodd Kamar y corcyn o'r botel. Yna, digwyddodd rhywbeth ofnadwy. Roedd clec uchel a chwmwl o fwg. Saethodd ysbryd drwg allan. Roedd arogl ffiائد fel wyau wedi pydru.

“O!” ebychodd Cad. “Beth rydyn ni wedi ei wneud?”

“Rhydd o'r diwedd!” gwaeddodd yr ysbryd drwg. “Byddwch chi'n flin eich bod wedi fy rhyddhau!”

“Pam?” gofynnodd Cad. “Dylech chi fod yn ddiolchgar.”

“Nid y fi!” meddai'r ysbryd drwg. “Rwy'n casáu pobl. Ond yn bennaf oll rwy'n casáu y dyn a'm rhoddodd i yn y botel hon.”





“Hassan yw ei enw,” meddai’r ysbryd drwg. “A nawr rwy’n mynd i ddelio gydag e.”

Yna tyfodd yr ysbryd drwg yn fawr iawn.

“Yn gyntaf rwy’n mynd i ddelio gyda chi,” meddai. Pwffiodd ei fochau allan a chwythu yn galed iawn.


“Help!” galwodd Kamar. “Mae e’n creu storm.”



Torrodd y gwynt yr hwylbren. Taflodd tonnau mawrion y cwch i fyny ac i lawr.

“Daliwch yn dynn bawb,” bloeddiodd Kamar. “Rydyn ni’n cael ein chwythu ar ynys fawr.”

“Dywedodd Cad nad oedd hon yn mynd i fod yn antur dda,” gwaeddodd Onw.




Chwythwyd y cwch i'r lan. Trawodd yn erbyn y creigiau a throi drosodd. Cafodd pawb eu taflu ar y traeth. Yna peidiodd y storm. Edrychodd Cad a Nadim o'u cwmpas. Roedden nhw i gyd yn wlyb, ond doedd neb wedi brifo.


Edrychodd pawb ar y cwch. Roedd twll mawr yn y gwaelod.

“Os na fedrwn ni drwsio'r twll hwn,” meddai Kamar, “byddwn ni'n gaeth i'r ynys hon.”

“Mae pethau'n mynd yn waeth,” meddyliodd Mwlsyn. “Mae gormod o glêr fan hyn.”



Yna gwelon nhw ddyn yn rhedeg tuag atynt. Roedd ganddo farf ddu hir a gwallt hir. Tad Kamar oedd e, Hassan. Pan welodd Kamar ef, gwaeddodd,  
“Dad! Ai ti yw e? Fi yw dy fab, Kamar.” Rhoddodd Hassan ei freichiau am Kamar.



Dyweddodd Hassan wrthyn nhw fod ei long wedi ei dryllio ar yr ynys.  
“Rwy’n byw mewn caban wedi ei wneud o ddarnau o bren. Rwy wedi bod ar fy mhen fy hun am bedair blynedd,” meddai.  
“Yna fe af fi â thi adref,” meddai Kamar. “Y cyfan sy’n rhaid inni ei wneud yw trwsio fy nghwch.”



Dangosodd tad Kamar gist fawr iddyn nhw.

“Cafodd ei golchi i’r lan mewn storm,” meddai.

“Gall fod yn llawn trysor, ond fedra i mo’i hagog. Does gen i ddim allwedd.”

Edrychodd Nadim ar y gist.

“Byddai angen allwedd arbennig i’w hagog,” meddai.



Yn sydyn roedd sŵn sïo ac arogl ffaidd wyau wedi pydru. Ymddangosodd yr ysbryd drwg! Roedd ei lais fel taran.


“Aha!” gwaeddodd. “Cefais fy ngharcharu mewn potel gen ti. Nawr fe ddeliaf fi gyda thi, Hassan!”



Roedd Mwlsyn yn casáu'r antur, ac roedd yn casáu'r ysbryd drwg hyd yn oed yn fwy. Dechreuodd gyfarth ac ysgyrnygu dannedd ar yr ysbryd drwg.

"Mwlsyn!" galwodd Cad. "Paid â gwneud hyn."  
Ond cyfarth hyd yn oed yn fwy wnaeth Mwlsyn.

"Help!" meddai'r ysbryd drwg. "Rwy'n casáu cŵn."




Hedfanodd yr ysbryd drwg i ffwrdd.

"Hwrê!" bloeddiodd Onw. "Gwynt teg ar ôl yr hen ysbryd drwg a drewllyd."

Roedd Hassan yn llawn cynnwrf.

"Ond sut wnaeth e ddianc?" gofynnodd. "Rhoddais ef mewn potel flynyddoedd yn ôl."



Dyweddodd Hassan wrthynt am yr ysbryd drwg.

“Fedr e mo’ch cyffwrdd chi, ond gall gael pethau eraill i’ch niweidio.”

“Fel y ffordd y gwnaeth e’r storm?” gofynnodd Cad.

“Ie,” meddai Hassan. “Ond dim ond dau beth drwg y gall eu gwneud mewn un diwrnod.”



Ar yr ynys roedd mynydd. Ar ei ben roedd aderyn mawr yn byw. Hedfanodd yr ysbryd drwg i fyny i’r lle roedd yr aderyn yn byw.

“Nawr, fe ddeliaf gyda’r ci gwirion yna,” meddai. Defnyddiodd ei rymoedd ar yr aderyn.

“Ar ôl y ci!” galwodd.



Hedfanodd yr aderyn i lawr o'r mynydd. Gallent deimlo'r gwynt oer o'i adenydd wrth iddynt guro.

"Brysiwch!" bloeddiodd Hassan. "Ewch i mewn i'r caban."


Roedd ar Mwlsyn ofn yr aderyn. Rhedodd i ffwrdd o'r caban.

"Mwlsyn, dere 'nôl!" bloeddiodd Cad.



Plymiodd yr aderyn i lawr i'r traeth. Cododd Mwlsyn yn ei grafangau. Rhedodd Cad, Nadim ac Onw allan o'r caban, ond hedfanodd yr aderyn i ffwrdd gyda Mwlsyn.


"Mwlsyn!" bloeddiodd Onw.



“Mae hyn yn ofnadwy,” meddai Onw. “Mae’n rhaid inni achub Mwlsyn.”

“Rhaid bod hyn oherwydd yr ysbyrd drwg,” meddai Nadim. “Bydd yn rhaid inni ei roi yn ôl yn y botel.”

“Mae’n rhaid bod ffordd i wneud hynny,” meddai Cad, “petaem ni ond yn gwybod sut.”



Yn sydyn dechreuodd yr allwedd hud ddisgleirio. “O stopiwch!” galwodd Nadim. “Fedrwn ni ddim mynd nawr. Dydyn ni ddim wedi achub Mwlsyn.” Dechreuodd yr hud fynd â nhw adref.

“Paid â disgleirio, allwedd hud,” meddai Cad. “Fedrwn ni ddim gadael Mwlsyn ar ôl.”





Aeth yr hud â'r plant adref.

"Beth fedrwn ni ei wneud am Mwlsyn?" gofynnodd Onw. "Fedrwn ni ddim ei adael ynghanol antur."

"Fedrwn ni wneud i'r allwedd fynd â ni yn ôl?" meddai Nadim.

"Fedrwn ni byth wneud iddi ddisgleirio," meddai Cad. "Mae ond yn disgleirio pan ei bod eisiau gwneud."



Gyda hynny daeth Mam i mewn i ystafell Cad.

"Mae'n bryd i Nadim fynd tua thre," meddai. "Ac mae'n bryd i Onw gael bath."

Doedd Onw ddim eisiau bath a doedd Nadim ddim eisiau mynd tua thre. Roedden nhw am fynd yn ôl i'r antur.



“Beth sydd, Cad?” gofynnodd Dids. “Rwyt ti’n edrych yn drist.” Dywedodd Cad wrth Dids am Mwlsyn.

“Rhaid inni fynd yn ôl a’i achub,” meddai Dids. “Rhaid inni feddwl am ffordd i gael yr ysbryd drwg yn ôl yn y botel.”

“Petai’r allwedd hud ond yn disgleirio,” meddai Cad.



# Yr Ysbryd Drwg

Mae Cad yn tyfu afal mewn potel.  
Ond beth sydd yn y botel mae hi'n  
cael gafael ynddi ar antur hud? A beth  
sy'n digwydd pan yw hi'n rhyddhau y  
corcyn?



Cam 8 Rhagor o Storiâu A  
Trefn ddarllen a argymhellir:

Arian Poced

Yr Ysbryd Drwg

Achubwch Mwlsyn!

Sut Le Oedd Yno?

Llifogydd!

Antur yn yr Aiff

Addasiad Cymraeg gan  
Juli Paschalis

ISBN 0-86174-846-8



9 780861 743464 >